



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Asesiad Corfforaethol Rhagarweiniol – Gorffennaf 2010



Cyf: 379A2010

Llun trwy garedigrwydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Arweiniwyd Tîm Asesu Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau
Brycheiniog gan John Roberts (Swyddog Arweiniol Asesu Gwelliant) dan gyfarwyddyd Alan Morris (Partner).

Mae arweinyddiaeth effeithiol wedi gosod seiliau cadarn ar gyfer gwella ac mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen cyflawni mwy o waith; er bod cynnal y momentwm a fydd yn arwain at welliant pellach yn parhau i fod yn her

**Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk**

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk



Cynnwys

Crynodeb	4
Rhan 1: Sut mae'r Awdurdod wedi mynd ati i sicrhau gwelliant dros amser	6
Mae ymateb cadarnhaol yr Awdurdod i'r gwendidau a nodwyd wedi arwain at welliannau sylweddol yn ei drefniadau ond mae diffyg gallu ac adnoddau yn amharu ar ragolygon ar gyfer gwelliant yn y dyfodol	6
Cyfrannodd problemau difrifol a amlygwyd gan swyddogaeth gynllunio'r Awdurdod at newidiadau sylweddol i'r tîm rheoli corfforaethol ac at wella trefniadau ar draws y sefydliad	6
Mae cyflwyno gwelliannau sylweddol mewn meysydd megis llywodraethu yn golygu bod yr Awdurdod mewn gwell sefyllfa i sicrhau gwelliant yn y dyfodol	7
Cynllunnir newidiadau pellach ond mae diffyg gallu ac adnoddau yn golygu bod rhai mentrau naill ai'n rhedeg yn hwyr neu byddant yn cymryd cryn dipyn o amser i'w cwblhau, gan effeithio ar allu'r Awdurdod i gyflawni gwelliant yn y dyfodol	7
Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella	8
Arweinyddiaeth effeithiol a gwell llywodraethu yw cryfderau penodol yr Awdurdod, a gefnogir gan ei ddull o reoli pobl ac agweddau ar weithio mewn partneriaeth, ond mae rhai meysydd pwysig yn cael eu datblygu o hyd	8
Mae arweinyddiaeth a llywodraethu yn chwarae rôl sylweddol o ran cefnogi gwelliant	8
Mae trefniadau rheoli pobl, trefniadau cydweithio a'r gwaith o reoli adnoddau ariannol yr Awdurdod o ddydd i ddydd yn cefnogi gwelliant mewn ffordd gadarnhaol	9
Mae ystod o bolisiâu ac agweddau ar brosesau busnes yr Awdurdod, ynghyd â strategaeth gliriach sy'n datblygu, yn cefnogi gwelliant yn rhannol	10
Er bod yr Awdurdod wedi dechrau datblygu dull cynllunio ariannol tymor canolig newydd, nid yw'r agwedd hon yn cefnogi gwelliant hyd yma	11

Crynodeb

- 1 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009) (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad blynyddol o Welliant ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru, hynny yw cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.
- 2 Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal:

 - Asesiad Corfforaethol – asesiad o drefniadau awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus; ac
 - Asesiad o Berfformiad – i asesu p'un a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ar ei gyfer.
- 3 Cynlluniwyd y dull hwn er mwyn gallu cynnal asesiad sefydliad cyfan ym mhob awdurdod mewn dull safonol. Gyda'i gilydd, bydd y ddau asesiad hyn yn sail i adroddiad blynyddol i ddinasyddion, a elwir yn Adroddiad Gwella Blynyddol.
- 4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfuno ei gwaith hi, gwaith yr Archwilydd Penodedig a gwaith rheoleiddwyr perthnasol eraill, i lywio'r Asesiad Corfforaethol. Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y dull gweithredu newydd, mae'r asesiad yn un rhagarweiniol a dylid ystyried yr adroddiad hwn yn adroddiad ar gynnydd. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Asesiad Corfforaethol.
- 5 Ym mis Mawrth 2010, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faint yr her ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus'. Mae effaith bosibl y gostyngiadau mewn gwariant ar lywodraeth leol hefyd wedi'i hamlygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2010, nododd CLILC, 'ni ellir osgoi'r ffaith y bydd yn rhaid i bob rhan o'r sector cyhoeddus edrych ar ei gwariant presennol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddi – ni ellir cywiro'r diffyg drwy arbedion effeithlonrwydd yn unig'. Er mwyn ymateb i'r her hon, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal adolygiad sylfaenol o'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt a'r modd y'u cyflwynir, gan gynnwys opsiynau ar gyfer caffael mwy o wasanaethau yn hytrach na'u darparu a chydweithredu. Paratowyd yr asesiad corfforaethol yn y cyd-destun hwn.
- 6 Mae'r adroddiad hwn ond yn nodi canfyddiadau'r Asesiad Corfforaethol a'i ddiben yw ateb y cwestiwn: 'A yw trefniadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yr Awdurdod) yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?'
- 7 Gan mai ein Hasesiad Corfforaethol Rhagarweiniol yw hwn mae sawl maes lle mai dim ond gwaith cyfyngedig sydd wedi bod yn bosibl. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn a monitro cynnydd yn



y misoedd i ddod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd.

- 8 Y casgliad sy'n codi o'n Hasesiad Corfforaethol cyntaf yw bod arweinyddiaeth effeithiol wedi gosod seiliau cadarn ar gyfer gwella ac mae'r Awdurdod yn cydnabod bod angen cyflawni mwy o waith; er bod cynnal y momentwm a fydd yn arwain at welliant pellach yn parhau i fod yn her.
- 9 Mae ein casgliad yn seiliedig ar ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod dros amser a dadansoddiad o gryfderau a gwendidau ei drefniadau i gefnogi gwelliant. Esbonnir y casgliadau hyn yn fanwl yn Rhan 1 a Rhan 2 o'r adroddiad yn y drefn honno. Canfuwyd y canlynol:
 - mae ymateb cadarnhaol yr Awdurdod i'r gwendidau a nodwyd wedi arwain at welliannau sylweddol yn ei drefniadau ond mae diffyg gallu ac adnoddau yn amharu ar ragolygon ar gyfer gwelliant yn y dyfodol; ac
 - arweinyddiaeth effeithiol a gwell llywodraethu yw cryfderau penodol yr Awdurdod, a gefnogir gan ei ddull o reoli pobl ac agweddau ar weithio mewn partneriaeth, ond mae rhai meysydd pwysig yn cael eu datblygu o hyd.

Arolygiad arbennig

- 10 Yn seiliedig ar yr Asesiad Corfforaethol, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cynnal arolygiad arbennig o'r Awdurdod o dan adran 21 o'r Mesur.

Argymhellion

- 11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella i'r Awdurdod o dan adran 19 o'r Mesur nac argymell y dylai Gweinidogion Cymru ddarparu cymorth i'r Awdurdod drwy arfer eu pŵer o dan adran 28 o'r Mesur na rhoi cyfarwyddyd o dan adran 29 o'r Mesur.

Meysydd i'w gwella

- 12 Mae'r asesiad wedi nodi'r meysydd canlynol lle rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn cymryd camau.

Arddangosyn 1: Meysydd i'w gwella

C1	Yn ddi-oed, ystyried ffyrdd o sicrhau bod gan yr Awdurdod ddigon o allu ac adnoddau i gyflawni'r gwelliannau arfaethedig.
C2	Datblygu dull corfforaethol o gynllunio'r gweithlu, sy'n cefnogi gallu'r Awdurdod i gyflawni ei flaenoriaethau.
C3	Gwneud defnydd mwy effeithiol o ddata i reoli perfformiad, gan sicrhau mwy o ffocws ar ganlyniadau yn enwedig.
C4	Sicrhau bod trefniadau cynllunio tymor canolig wedi'u llywio'n glir gan flaenoriaethau'r Awdurdod.

Rhan 1: Sut mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â gwelliant dros amser

Mae ymateb cadarnhaol yr Awdurdod i'r gwendidau a nodwyd wedi arwain at welliannau sylweddol yn ei drefniadau ond mae diffyg gallu ac adnoddau yn amharu ar ragolygon ar gyfer gwelliant yn y dyfodol

Cyfranodd problemau difrifol a amlygwyd gan swyddogaeth gynllunio'r Awdurdod at newidiadau sylweddol i'r tîm rheoli corfforaethol ac at wella trefniadau ar draws y sefydliad

- 13** Ers 2005, roedd perfformiad gwasanaeth rheoli datblygiadau'r Awdurdod yn is yn gyson na pherfformiad cyfartalog yng Nghymru. Ar ddechrau 2008, beirniadwyd yr Awdurdod yn hallt gan gyfreithwyr arbenigol a gomisiynwyd ganddo i ymchwilio i fethiannau ynghylch rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer maes carafanau.
- 14** Yn ystod 2008, gwnaeth yr Awdurdod newidiadau i'r strwythur rheoli a arweiniodd at newidiadau sylweddol i'w dîm rheoli corfforaethol, gyda'r nod o wella perfformiad y tîm. Ym mis Medi 2008, gofynnwyd i'r Cyfarwyddwr Cefn Gwlad a Rheoli Tir i weithredu fel Prif Weithredwr pan waharddwyd deiliad y swydd.
- 15** Ym mis Rhagfyr 2008, gadawodd y cyn Brif Weithredwr gyflogaeth yr Awdurdod i ddilyn gyrfa newydd. Ym mis Ebrill 2009, gwnaeth y Cyfarwyddwr Cefn Gwlad a Rheoli Tir gais llwyddiannus, mewn cystadleuaeth agored, am swydd y Prif Weithredwr. Parhaodd i weithredu fel Cyfarwyddwr Cefn Gwlad a Rheoli Tir hyd nes i gyfarwyddwr newydd gael ei benodi ym mis Hydref 2009. Yn y cyfamser, dilëwyd dwy uwch swydd yn sgîl yr ailstrwythuro.
- 16** Cynlluniwyd y newidiadau rheoli yn rhannol er mwyn dangos yn glir pwy oedd yn gyfrifol am benderfyniadau unigol o fewn y sefydliad ac i wneud y systemau adrodd yn fwy tryloyw; yn ogystal â sicrhau arbedion effeithlonrwydd ar gyfer yr Awdurdod.
- 17** Ym mis Medi 2009, cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig adroddiad archwilydd diamed ar Ddatganiadau Ariannol 2008-09, gan gadarnhau iddynt gael eu llunio yn unol â gofynion statudol a'u bod yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol a thrafodion ariannol yr Awdurdod.
- 18** Ym mis Rhagfyr 2009, cyhoeddodd y Rheolydd Perthynas a'r Archwilydd Penodedig Lythyr Blynyddol ar y datganiadau ariannol, trefniadau corfforaethol a pherfformiad yr Awdurdod. Nododd y Llythyr y materion allweddol ar gyfer yr Awdurdod bryd hynny oedd yr angen am waith ychwanegol ar wella ei waith treftadaeth adeiledig a pha mor gyflym y penderfynir ar bob cais cynllunio. Roedd yr Awdurdod yn cydnabod bod angen iddi ddatblygu ei gynlluniau



parhad busnes a'i drefniadau rheoli perfformiad. Ar ddiwedd 2009, penderfynodd yr Awdurdod a'r tîm rheoli corfforaethol newydd newid y ffordd y rheolwyd perfformiad o fewn y sefydliad.

Mae cyflwyno gwelliannau sylweddol mewn meysydd megis llywodraethu yn golygu bod yr Awdurdod mewn gwell sefyllfa i sicrhau gwelliant yn y dyfodol

- 19** Agwedd allweddol ar ymateb yr Awdurdod i'r problemau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 13 yw'r adolygiad sylfaenol o'i drefniadau llywodraethu. Mae aelodau yn chwarae rhan weithredol yn y broses o adolygu methodoleg graffu, ac er bod yr adolygiad yn mynd rhagddo yn barhaus, mae eisoes wedi cyflwyno newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae'r Awdurdod yn gweithredu, a ddisgrifir yn rhan 2 o'r adroddiad hwn.
- 20** Yr arwyddion cynnar yw bod perfformiad y gwasanaeth cynllunio wedi gwella'n sylweddol. Er enghraifft, mae'r Awdurdod yn nodi bod 74 y cant o geisiadau cynllunio newydd gan ddeiliaid tai wedi cyflawni terfynau amser targedau statudol o'i gymharu â 42 y cant yn 2008-09.

Cynllunnir newidiadau pellach ond mae diffyg gallu ac adnoddau yn golygu bod rhai mentrau naill ai'n rhedeg yn hwyr neu byddant yn cymryd cryn dipyn o amser i'w cwblhau, gan effeithio ar allu'r Awdurdod i gyflawni gwelliant yn y dyfodol

- 21** Bydd y gostyngiad cenedlaethol mewn gwariant cyhoeddus y mae cynifer o sefydliadau ledled y DU yn eu hwynebu ar hyn o bryd hefyd yn effeithio ar yr Awdurdod. Yn ogystal â'r her o weithio gyda lefel sylweddol is o adnoddau, ceir yr her barhaus o ddatblygu trefniadau sy'n canolbwyntio orau ar gyflawni gwelliannau.
- 22** Mae'r Awdurdod yn cydnabod maint yr her hon, ac mae'n cynnal adolygiad sylfaenol o'i drefniadau cynllunio tymor canolig. Mae'r adolygiad hwn yn ogystal â'r adolygiadau parhaus o feysydd eraill megis trefniadau llywodraethu, prosesau busnes a chylch busnes yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod hefyd wedi clustnodi bod angen diweddarau neu ddatblygu'r Strategaethau Cyfathrebu a Chaffael, er bod y gwaith hwn yn rhedeg yn hwyr.
- 23** Mae'r tîm rheoli corfforaethol yn llai o faint nag y bu yn y gorffennol, ac er ei fod yn gwneud cynnydd o ran llywio newid mewn nifer o feysydd pwysig, mae'n cydnabod bod ei allu a'i adnoddau prin eisoes yn cael eu defnyddio i'r eithaf er mwyn mynd i'r afael â'i agenda uchelgeisiol.

Rhan 2: Dadansoddiad o drefniadau'r Awdurdod i'w helpu i wella

Arweinyddiaeth effeithiol a gwell llywodraethu yw cryfderau penodol yr Awdurdod, a gefnogir gan ei ddull o reoli pobl ac agweddau ar weithio mewn partneriaeth, ond mae rhai meysydd pwysig yn cael eu datblygu o hyd

Mae arweinyddiaeth a llywodraethu yn chwarae rôl sylweddol o ran cefnogi gwelliant

- 24** Mae gan yr Awdurdod 24 o aelodau: wyth a benodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad; wyth o Gyngor Sir Powys; dau yr un o Gyngor Sir Fynwy a Chyngor Sir Caerfyrddin; ac un yr un o Gynghorau Sir Merthyr Tydfil, Torfaen, Blaenau Gwent a Rhondda Cynon Taf.
- 25** Weithiau mae diffyg dilyniant o ran aelodaeth yr Awdurdod yn tanseilio'i waith. Gall aelodau newydd gymryd rhywfaint o amser i ddatblygu dealltwriaeth lawn o'r gwahaniaethau o ran strwythurau ac agenda rhwng awdurdod parc cenedlaethol a chyngor lleol. Mae hyfforddi aelodau newydd yn golygu cost ychwanegol i'r Awdurdod. Mae newidiadau mewn aelodaeth hefyd yn golygu bod yr Awdurdod yn colli arbenigedd a phrofiad aelodau sefydledig.

26 Er nad oes gofyniad statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i awdurdodau parciau cenedlaethol gael rôl graffu, mae craffu yn rhan bwysig o lywodraethu da. Sefydlwyd yr Awdurdod, fel Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru, fel nad oes unrhyw 'blaid yn llywodraethu' ac felly nid oes unrhyw 'wrthblaid'. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cyflawni gwaith craffu mewnol gan y byddai'r gwaith o graffu ar benderfyniadau yn cael ei wneud, yn sylfaenol, gan y sawl a wnaeth y penderfyniadau hynny.

27 Nid yw craffu ar y broses o ddarparu gwasanaethau yn gymaint o broblem. Fodd bynnag, mae aelodau'r pwyllgor archwilio a chraffu hefyd yn rhan o broses yr Awdurdod o wneud penderfyniadau. O dan amgylchiadau lle caiff perfformiad gwasanaethau ei lywodraethu i raddau helaeth gan benderfyniadau'r Awdurdod, bydd rhai o'r problemau sy'n gysylltiedig â hunan-graffu'n parhau.

28 Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'r materion hyn, a chan gofio'r ffaith y gallai llywodraethu gwan fod wedi cyfrannu at broblemau yn y gorffennol, mae'r Awdurdod wedi atgyfnerthu'r agwedd hon ar ei drefniadau. Mae hyn yn cynnwys:

- strategaeth datblygu aelodau, gyda hyfforddiant helaeth i aelodau, sy'n gysylltiedig â chyfweliadau datblygu personol a phennu amcanion a chanlyniadau;



- porth aelodau, y ceir mynediad iddo ar y rhyngwrwyd, sy'n cysylltu ystod o nodweddion megis cyfnewidfa wybodaeth a chyfleusterau i olrhain penderfyniadau a chamau gweithredu;
- adolygiad cynhwysol o ddogfennau rheoliadol yr Awdurdod;
- proses graffu ar ei newydd wedd, y mae aelodau o'r farn y gall fod yn effeithiol iawn; ac
- adolygiad parhaus o drefniadau craffu i nodi meysydd pellach i'w gwella.

29 Yn ogystal, mae'n arwain cais ar y cyd i Gronfa Graffu Llywodraeth y Cynulliad i ystyried ffyrdd o wella craffu. Cyflawnir craffu allanol drwy Lywodraeth y Cynulliad ac adolygu allanol, megis Swyddfa Archwilio Cymru.

30 Mae Siartr Cymru ar gyfer Cefnogaeth Aelodau ac Asesu Datblygu, sef adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gadarnhaol iawn, gan nodi, er enghraifft, bod cydberthnasau da rhwng swyddogion ac aelodau, prosesau cymorth a datblygu effeithiol, ac mai prin iawn yw'r gwendidau. Mae lefelau presenoldeb aelodau yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru.

31 Mae aelodau'n gweithio'n agos â'r tîm rheoli corfforaethol newydd, sy'n gyfrifol am lywio'r newidiadau hyn. Yn ogystal â siarad ag aelodau a staff 'rheng flaen', gwnaethom nodi optimistiaeth glir iawn o ran y ffordd yr oedd yr Awdurdod yn newid, gan gynrychioli newid i ddiwylliant newydd, mwy cynhwysol a mwy tryloyw o fewn y sefydliad.

Mae trefniadau rheoli pobl, trefniadau cydweithio a'r gwaith o reoli adnoddau ariannol yr Awdurdod o ddydd i ddydd yn cefnogi gwelliant mewn ffordd gadarnhaol

32 Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu strategaeth rheoli pobl sy'n gryno, yn hawdd i'w defnyddio ac yn nodi cyfeiriad teithio clir. Mae rheolwyr a staff yn cynnal arfarniadau perfformiad yn chwarterol, gan ei gwneud yn haws nodi rhwystrau i berfformiad yn gyflymach. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth barn o ran pa mor feichus oedd yr amlder hwn i staff a rheolwyr.

33 Cynhelir arfarniad y Prif Weithredwr ei hun gan gadeirydd yr Awdurdod, ynghyd â chadeiryddion ei ddau bwyllgor. Mae'r asesiad yn seiliedig ar amcanion personol sydd wedi'u cynllunio i gysylltu ag amcanion corfforaethol yr Awdurdod. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion personol yn canolbwyntio ar ganlyniadau ar hyn o bryd, ac nid ydynt wedi'u cysylltu â mesurau realistig ac ystyrlon o lwyddiant ychwaith.

34 Mae'r Awdurdod yn darparu rhaglenni hyfforddiant helaeth ar gyfer staff mewn perthynas ag ystod o faterion, sy'n gysylltiedig â chynlluniau datblygu personol. Mae'r defnydd o hyfforddiant proffesiynol ar gyfer swyddogion allweddol yn eu galluogi i fynd i'r afael â heriau presennol a heriau yn y dyfodol, ac mae cylchdroi cadeirydd y tîm rheoli corfforaethol yn cefnogi'r dull hwn. Caiff aelodau hyfforddiant mewnol yn bennaf, a gall hyn arwain at y fantais ychwanegol o wella sgiliau a dealltwriaeth y staff hynny sy'n cymryd rhan.

- 35** Er nad oes gan yr Awdurdod ddull corfforaethol o gynllunio'r gweithlu, mae wedi cynnal adolygiad o uwch staff yn y gorffennol, gan arwain at leihad yn eu nifer ac ailstrwythuro ar y lefelau uchaf. Yn ogystal ailgynlluniodd yr Awdurdod strwythur ei wasanaeth cynllunio mewn ymateb i asesiad o'r angen tebygol ac o ganlyniad, gwnaeth ei drefniadau mewnol ei hun ar gyfer cynhyrchu staff cynllunio cymwys.
- 36** Mae'r Awdurdod yn ymwneud â mentrau cynllunio ar y cyd gyda phartneriaid amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau untro, cydbenodiadau, comisiynu eraill i gyflawni gwaith ar ei ran a chynrychiolaeth mewn cyfarfodydd gyda phartneriaid sy'n bodoli eisoes a darpar bartneriaid. Ymhlith yr enghreifftiau mae: COLLABOR8 ; arwain partneriaeth trafndiaeth i ymwelwyr sy'n cynnwys 28 o gyrff cyhoeddus a phreifat; trefnu Bws y Bannau gyda chonsortiwim o 14 o awdurdodau lleol a phartneriaid sector cyhoeddus eraill; cytundeb lefel gwasanaeth i ymdrin â rhai o geisiadau cynllunio Cyngor Sir Powys ym Mrycheiniog; a sefydlu tîm cymunedol a chynaliadwyedd i weithio gyda chymunedau ar brosiectau amrywiol.
- 37** Fodd bynnag, nid yw un o'r mentrau hyn o ganlyniad i adolygiad sylfaenol gan yr Awdurdod o'r opsiynau sydd ar gael i ad-drefnu gwasanaethau corfforaethol a rheng flaen. Nid yw'r adroddiad rhagarweiniol hwn wedi asesu i ba raddau y mae'r Awdurdod yn monitro p'un a yw mentrau cydweithredol yn cyflawni'r manteision disgwylidig.
- 38** Mae'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol yn caniatáu ar gyfer adolygu a thrafod newidiadau posibl i wasanaethau a lefelau ariannu, a defnyddir y tybiaethau i bennu cyflogau a chostau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau. Dyrennir y gyllideb i reolwyr gwasanaethau a chaiff ei monitro drwy adroddiadau misol ffurfiol i ddeiliaid y cyllidebau ac i'r tîm rheoli corfforaethol yn dilyn hynny, gydag adroddiadau chwarterol wedi'u paratoi ar gyfer aelodau drwy'r pwyllgor archwilio a chraffu. Mae gan ddeiliaid cyllidebau fynediad i'r cyfrifyfr ariannol sy'n caniatáu iddynt adolygu'r sefyllfa ar unrhyw adeg.
- 39** Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod y broses o bennu cyllidebau yn ystyried datblygiadau gwasanaeth a bod y trefniadau pennu cyllidebau yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau ariannol a'r cynlluniau gwasanaeth.
- Mae ystod o bolisïau ac agweddau ar brosesau busnes yr Awdurdod, ynghyd â strategaeth gliriach sy'n datblygu, yn cefnogi gwelliant yn rhannol**
- 40** Mae ystod o bolisïau sy'n ymwneud â chyflogaeth, telerau ac amodau ar gyfer staff ac iechyd a lles yn cael eu hymgorffori yn nhrefniadau'r Awdurdod.
- 41** Mae adroddiadau eithrio ac adroddiadau perfformiad rheolaidd i'r pwyllgor archwilio a chraffu yn helpu i sicrhau y caiff camau gweithredu eu monitro. Mae system olrhain yn caniatáu monitro 'byw' gan aelodau o gynnydd o ran camau gweithredu, gan wneud swyddogion yn fwyfwy atebol am eu perfformiad.
- 42** Er bod yr Awdurdod eisoes yn casglu rhywfaint o ddata, mae'n cydnabod y gallai defnyddio gwybodaeth fwy ystyrlon wella ei drefniadau rheoli perfformiad. Er enghraifft, yn aml nid yw'r data a gesglir gan yr Awdurdod yn canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gamau gweithredu, yn hytrach na chanolbwyntio ar effeithiau'r camau gweithredu hynny, neu eu heffeithiau disgwylidig.



43 Mae'r Awdurdod wedi cydgomisiynu ymgynghorwyr allanol i ddatblygu data cymhariaeth ar gyfer gwasanaethau cynllunio ar draws y tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru. Mae hefyd yn cymryd rhan mewn gweithdai atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Dylai'r camau hyn, ynghyd â chydabyddiaeth yr Awdurdod bod angen i fesurau o lwyddiant ganolbwyntio mwy ar ganlyniadau, ei helpu i ddatblygu trefniadau sy'n caniatáu iddo asesu a rheoli ei gynnydd tuag at gyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol yn fwy effeithiol.

44 Caiff cofrestr risg ei hadolygu gan y tîm rheoli corfforaethol, a chaiff ei thrafod a'i chymeradwyo gan y pwyllgor archwilio a chraffu. Darperir hyfforddiant ar reoli risgiau yn fewnol, ac mae'r Awdurdod yn ystyried ffyrdd y gall Ffynnon, system rheoli perfformiad Cymru gyfan, ychwanegu gwerth at y broses. Ni chanfu adroddiad gan wasanaethau archwilio mewnol Cyngor Sir Powys, a gomisiynwyd gan yr Awdurdod, unrhyw wendidau sylweddol yn ei drefniadau rheoli risg. Fodd bynnag, mae'r risgiau a nodwyd gan yr Awdurdod yn canolbwyntio'n bennaf ar brosesau, heb unrhyw gyswllt clir â meysydd gwella pwysicach.

45 Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cynnal gwaith adolygu ac ailgynllunio helaeth a chynhwysol o'i brosesau busnes, gan ddefnyddio'r un fethodoleg trefnu prosesau busnes yr oedd yr Awdurdod o'r farn ei bod yn llwyddiannus wrth ei chymhwyso i'w swyddogaeth gynllunio. Mae'r gwaith hwn yn ffurfio rhan o adolygiad o'i gylch busnes. Cam cyntaf yr adolygiad hwn oedd egluro terminoleg a chynnyddu dealltwriaeth swyddogion ac aelodau o'r cysylltiadau rhwng pennu amcanion corfforaethol, adolygu cynnydd a chynllunio busnes a

materion ariannol. Bydd yr Awdurdod yn cyflawni'r camau dilynol pan fydd blaenoriaethau eraill yn caniatáu hynny.

46 Yn ddiweddar cytunodd yr Awdurdod ar ei bedwar 'nod corfforaethol' ar gyfer 2010-11, ynghyd ag amcanion blynyddol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r nodau hyn. Mae'r awdurdod wedi defnyddio'r dull pragmatig o ddefnyddio ymatebion ymgynghori a gasglwyd yn flaenrol ac a gesglir o hyd i'w helpu i gyflawni ei nodau corfforaethol. Mae'r dull hwn yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau cyfyngedig tra'n sicrhau rhywfaint o gyfranogiad gan randdeiliaid.

47 Nid yw'r Awdurdod wedi nodi na chytuno ar ei amcanion gwella hyd yma, ond y bwriad yw y byddant yn is-set o'i amcanion corfforaethol newydd.

Er bod yr Awdurdod wedi dechrau datblygu dull cynllunio ariannol tymor canolig newydd, nid yw'r agwedd hon yn cefnogi gwelliant hyd yma

48 Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o'i ddiffygion presennol ar hyn o bryd o ran sut y gall gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd a'r heriau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus. Mae'r Awdurdod felly yn cynnal adolygiad sylfaenol o'i ddull cynllunio ariannol tymor canolig.

49 Mae trafodaethau ynghylch y lleihad tebygol mewn setliadau yn y blynyddoedd i ddod yn parhau rhwng Llywodraeth y Cynulliad a'r Awdurdod. Gofynnwyd i ddeiliaid cyllidebau nodi arbedion effeithlonrwydd posibl wrth ragweld yr angen tebygol i leihau'r gyllideb, ond dim ond targedau dangosol a roddwyd ar y cam hwn.

50 Cynhaliwyd cyfarfodydd eisoes rhwng y tîm rheoli corfforaethol, aelodau a staff i drafod effaith bosibl toriadau yn y setliad, gyda'r nod o rannu syniadau ynghylch sut y gall yr Awdurdod ymateb i ostyngiad mewn lefelau ariannu. Y nod yw cynnwys staff ac aelodau yn y gwaith o ddatblygu cyfres o senarios posibl, fwy na thebyg yn ystod mis Medi 2010, unwaith y bydd gan yr Awdurdod fwy o wybodaeth am y lleihad yn y setliad.

